

Arholiadau Aelodaeth Gyflawn Ebrill 2022

Adroddiad Cyffredinol

Y diffiniad o Aelodaeth Gyflawn:

Mae safon Aelodaeth Gyflawn yn cyfateb i aelodaeth gwbl broffesiynol lle nad oes ar y cyfieithydd angen unrhyw oruchwyliaeth. Disgwylir iddo fedru cyfieithu'n rhugl ac yn gywir, ysgrifennu mewn sawl arddull a chywair yn ôl yr angen a gallu ymdopi ag iaith haniaethol neu dechnegol. Disgwylir iddo hefyd feddu ar ddealltwriaeth glir o gefndir diwylliannol y ddwy iaith. Ar ôl iddo gwblhau ac adolygu cyfieithiadau, ni ddylai fod angen eu diwygio na'u cywiro.

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Tud. 2

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Tud. 6

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 5
Llwyddo: 1

Nifer fach o ymgeiswyr a gafwyd yn y rownd hon, ac er mai dim ond un a lwyddodd, roedd y safon yn uchel at ei gilydd. Roedd yr ymgeisydd llwyddiannus yn disgleirio, gan gynhyrchu cyfieithiadau caboledig o'r tri darn a oedd yn lân ac yn cyfleu'r wybodaeth yn gywir, yn ogystal â dangos dawn i drin geiriau'n gelfydd a llunio brawddegau naturiol. Roedd dau ymgeisydd arall o fewn trwch blewyn i lwyddo, yn enwedig un ohonynt a fethodd ar sail y darn arholiad cyntaf yn unig. Bwriedir i'r tri darn a osodir ymdrin â phynciau hollol wahanol i'w gilydd a gofyn i'r ymgeiswyr ddangos eu gallu i ymdopi ag arddulliau gwahanol wrth gyfieithu. Hyd yn oed os nad yw ymgeisydd yn gyfarwydd â phwnc penodol neu arddull arbennig wrth ei waith pob dydd, disgwylir i'w allu ieithyddol uwch ei alluogi i ymdopi ag unrhyw beth a ddaw ger ei fron – disgwylir iddo allu adnabod p'un a yw ymadrodd yn taro deuddeg ai peidio, ni waeth beth fo'r testun.

Tynnir sylw at y diffiniad o Aelodaeth Gyflawn ar frig y dudalen - *Mae safon Aelodaeth Gyflawn yn cyfateb i aelodaeth gwbl broffesiynol lle nad oes ar y cyfieithydd angen unrhyw oruchwyliaeth.* Mae dyfarnu Aelodaeth Gyflawn yn cymeradwyo cyfieithwyr fel rhai y gellir ymddiried ynddynt i gyflwyno gwaith di-fai. O safbwynt y marcwyr, felly, disgwylir safon uchel ar y lefel hon a rhaid derbyn bod y trothwy'n uwch a bod llai o faddeuant yn cael ei roi i lithriadau.

Er y bydd yr ymgeiswyr aflwyddiannus yn siomedig, gobeithir y bydd y ffaith eu bod wedi dod yn agos ati yn gysur iddynt ac y byddant yn achub ar bob cyfle i fireinio eu sgiliau ymhellach er mwyn cynnal y safon sy'n ofynnol ar draws y tri darn.

Gwelwyd enghreifftiau o gyfieithu graenus, naturiol yng ngwaith pob un o'r ymgeiswyr, fel y canlynol:

Now we were to get a voice to put to a name and photograph.
Nawr, fe gaem lais i fynd gyda'r enw a'r llun.

...took centre stage.
...hawliodd y prif sylw.

...cut to the chase.
...aeth at wraidd pethau.

Her scars are all on the inside and are not on the table for public consumption.
Mae ei chreithiau i gyd ar y tu mewn ac wedi'u cuddio rhag llygaid y cyhoedd.

You can mess with her, but you can't break her.
Gallwch ymrafael â hi, ond ni allwch ei thorri.

...it was not something to be missed.
...nid rhywbeth i'w gollu mo hwn.

It was standing room only...
Roedd y lle dan ei sang...

Some groups of women already face greater challenges and unfair disadvantages in achieving economic success.
Mae rhai grwpiau o fenywod eisoes yn wynebu mwy o heriau ac anfanteision annheg wrth geisio llwyddo'n economaidd.

In addressing the climate crisis head on...
Wrth inni fynd benben â'r argyfwng hinsawdd...

...allow us to design-in equality to our future.
...yn caniatáu inni gynnwys cydraddoldeb yn rhan o wead ein dyfodol.

Roedd enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus fel y rhain i'w gweld yng ngwaith pob un o'r ymgeiswyr, ond yn anffodus, ochr yn ochr â hwy, cafwyd cyfieithu nad oedd yn taro deuddeg, a hynny am amrywiol resymau:

Now we were to get a voice to put to a name and photograph.
Bydden ni nawr yn cael llais i'w hatodi i enw a llun.

First, though, it was Tulip Siddiq ... who took centre stage.
Ond yn gyntaf i gamu i'r brif llwyfan oedd Tulip Siddiq...
Yn gyntaf, fodd bynnag, Tulip Siddiq ... a gymerodd ganol y llwyfan.
Ond Tulip Siddiq ... a gymerodd brif safle'r llwyfan gyntaf.

...hunger strike.
...newynu mewn protest.

...not on the table for public consumption.
...nid ar ddangos at ddefnydd y cyhoedd.
...nid ydynt wedi'u harddangos i'r cyhoedd eu trafod.
...nid ydynt i'w gweld ar y ford i'r cyhoedd eu gwyllo a'u treulio.

It was standing room only...
Lle i sefyll yn unig oedd piau hi...

...reduce their contribution to the labour market, and others to leave the workforce altogether.
...leihau eu horiau cyflogedig, ac i eraill adael cyflogaeth yn gyfan gwbl.

...new green jobs...
...swyddi newydd...

...utilities, construction and manufacturing...
...y byd adeiladu a gweithgynhyrchu...

...gender equality at work...
...cydraddoldeb yn y gwaith...

Yn yr enghreifftiau uchod, gwelir bod yr ymgeiswyr naill ai heb ddeall union ystyr y gwreiddiol, heb brawfddarllen eu gwaith yn ddigon manwl i sylwi ar wallau esgeulus, fel hepgoriadau, neu heb lwyddo i gyfleu ymadrodd Saesneg mewn ffordd naturiol yn y Gymraeg, gan arwain at gyfieithu llythrennol.

Ar y llaw arall, roedd rhai ymgeiswyr eraill wedi gwyrō'n rhy bell o'r testun gwreiddiol gan ychwanegu geiriau llanw, fel **o ran, yn achos, y gwir amdani, y ffaith**, yn ddiangen neu gyfieithu'n rhy lac:

...she cut to the chase.
...dyma hi'n mynd ati heb oedi dim.

He's aged noticeably.
Yn amlwg, mae wedi mynd yn hŷn.

Rhaid tynnu sylw hefyd at nifer o wallau ieithyddol a frigodd i'r wyneb yng ngwaith yr ymgeiswyr:

...nawr roeddwn... (now we were)
...sicrhaodd rhyddid...
...wedi'i heneiddio...
...llais i'w hatodi...
...yng nghynhadledd i'r wasg cyntaf i'w roi...
...newin...
...gallwch rwystro hi...
...gymharol gwaeth...
...meysydd chyfleustodau...
...drama wleidyddol parhaus...
...os bosibl...
...a fagodd plant...

Ni ddisgwylir gwallau o'r fath ar y lefel hon a gellid ond tybio mai diffyg prawfddarllen yn ddigon gofalus sy'n gyfrifol amdanynt. Afraid dweud, nid yw ymgeiswyr sy'n gyfieithwyr da fel arall yn gwneud cyfiawnder â'u hunain drwy gyflwyno gwaith gwallus o'r fath.

Roedd nifer o wendidau cystrawennol yn amharu ar y darnau hefyd:

She was to be even more impressive than any of us had imagined.
Roedd hi i fod hyd yn oed yn fwy syfrdanol nag yr oedd unrhyw un ohonom wedi'i ddychmygu.

...and higher female unemployment rates and lower female market participation were seen...
...a chanfuwyd cyfraddau diweithdra menywod uwch a chyfranogiad menywod yn y farchnad is...

The increased burden of unpaid childcare...
Roedd y baich cynyddol gan ofal plant di-dâl...

...and allow us to...
...a'n caniatáu i...

...caused some women to...
...achoswyd rhai menywod i...

Gosodwyd darn gwaith cartref, yn ôl yr arfer. Diben y darn hwn yw rhoi cyfle i'r ymgeiswyr ddangos eu doniau, heb fod o dan bwysau amodau arholiad. Disgwylir iddynt, felly, nid yn unig gyflwyno gwaith glân a graenus, ond hefyd fanteisio ar y rhyddid i ymchwilio er mwyn dewis yr union air sy'n gweddu i'r testun. Braff yw dweud bod yr ymgeiswyr i gyd i'w gweld wedi achub ar y cyfle hwnnw ac nid oedd yr un ohonynt wedi'i lorio gan y darn.

Gwelwyd enghreifftiau o gyfieithu crefftus, e.e.:

...compliant behaviour...
...ymddygiad sy'n cydymffurfio...

...making the most of the tools which the government makes available to them specifically for this purpose...
...gan fanteisio i'r eithaf ar ddarpariaethau'r llywodraeth ar eu cyfer yn benodol at y diben hwn...

...more of a grey issue.
...yn fater mwy niwlog.

...nid yw ... mor ddu a gwyn.

...operating within the letter rather than the spirit of the law.
...glynu wrth lythyren y ddeddf yn hytrach na'i hysbryd.

The issue falls into the realm of ethics...

Daw'n fater moesegol...

Cwestiwn o foeseg yw'r mater hwn...

Avoiding tax is seen as avoiding a social obligation.

Bernir bod osgoi trethi gyfystyr ag osgoi rhwymedigaeth gymdeithasol.

Wedi dweud hynny, byddai gwaith rhai ymgeiswyr wedi bod yn well petaent wedi ystyried sut i gyfleu'r gwreiddiol yn fwy naturiol yn y Gymraeg:

...operating within the letter rather than the spirit of the law.

...gweithredu o dan union eiriau'r gyfraith yn hytrach nag yn ei hysbryd.

The issue falls into the realm of ethics...

Mae'r mater yn dod o fewn cwrmpas moeseg...

Roedd rhai enghreifftiau o gywair anaddas hefyd:

...aggressive [use of]...

...ymwthgar...

...ffyrnig...

...fictitious transactions...

...trafodiadau ffug...

...greed and selfishness...

...barusrwydd a hunanoldeb...

...yn ariangar ac yn hunanol...

...social obligation...

...gorfodaeth gymdeithasol...

Er hynny, braf yw dweud bod yr holl ymgeiswyr wedi cyflwyno darnau gwaith cartref a oedd yn lân yn ieithyddol. Wrth symud ymlaen, fe'u hanogir i roi mwy o sylw i'r cyfanwaith er mwyn cyflwyno cyfieithiad sy'n llifo'n naturiol, ac sy'n ddigon idiomatig i argyhoeddi'r darlennydd ei fod yn darllen darn Cymraeg gwreiddiol.

Fel y dywedwyd ar y dechrau, er mai dim ond un ymgeisydd a lwyddodd y tro hwn, dangosodd pob un allu i gyfieithu'n fedrus. Fel sy'n wir yn aml ar y lefel hon, dangosodd yr ymgeiswyr eu bod wedi cyrraedd safon Aelodaeth Gyflawn mewn darnau unigol, ond yr her yw cynnal y safon uchel honno ar draws y tri darn. Yn ogystal â medru cyfieithu darn yn raenus, rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus ar y lefel hon fedru ei brawfddarllen yn drylwyr, nid yn unig er mwyn atal unrhyw fân wallau rhag syrthio trwy'r rhwyd, ond hefyd i'w ddarllen yn wrthrychol fel darn annibynnol gan roi sylw i'r gystrawen a'r cywair er mwyn cyflwyno gwaith sy'n argyhoeddi fel darn gwreiddiol. Anogir yr ymgeiswyr aflwyddiannus i roi cynnig arall arni'n fuan, ar ôl mireinio eu sgiliau ychydig yn fwy.

Wrth gloi'r adroddiad hwn, hoffwn ddiolch o galon i holl aelodau'r Bwrdd Arholi ac i staff y swyddfa am eu gwaith trylwyr a'u holl gymorth a'u cefnogaeth i'r Dirprwy Brif Arholwr.

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 2
Llwyddo: 0

Dau ymgeisydd yn unig a gafwyd ar y lefel Gyflawn i'r Saesneg y tro hwn, ac yn anffodus, ni lwyddodd y naill na'r llall i gynnal safon gyson drwy'r darnau a gyfieithwyd. Serch hynny cafwyd enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus estynedig yng ngwaith y ddau ymgeisydd ac roedd yn braf gweld eu bod yn gallu cynnal y safon am frawddeg gyfan neu fwy, er enghraifft:

Gallai garu, ond yr oedd ei fagwraeth wedi magu ynddo ddrwgdybiaeth o eraill, a pheri iddo gyfystyru empathi â gwendid. A phe bai canlyniadau annymunol i'w weithredoedd, gwadai gyfrifoldeb, a rhoddai'r bai ar eraill.

He could love, but his upbringing had bred in him a mistrust of others, and caused him to equate empathy with weakness. And if his actions had undesirable consequences, he would deny responsibility, and blame others.

Gallai anifeiliaid eraill gyfathrebu, ond fe wnaethom ni ddatblygu gallu lleisiol rhyfeddol, gallu i greu synau a oedd yn cynrychioli cysyniadau yn ogystal â gwrthrychau.

Other animals could communicate, but we developed an astonishing vocal ability, an ability to create sounds which represented concepts as well as objects.

Cafwyd cyfieithu gwirioneddol ysbrydoledig hefyd gan y ddau ymgeisydd, er enghraifft:

llawenydd llifeiriol chwerthin yn afreolus
the overflowing joy of laughing uncontrollably

cynnwrf dwfn yr enaid
that stirring feeling deep in our soul

tywallt aur i gasgenni diwaelod eilunod byd chwaraeon
lining the bottomless pockets of sporting idols

Roedd **utter twaddle** am 'rwdl pur' yn dda hefyd, er y byddai disgwyl rhywbeth cryfach na **what nonsense** am 'lol botes maip'.

Fodd bynnag ceir nifer o wallau ymhob un o'r tri darn gan y ddau ymgeisydd.

Methwyd â chyfleu ystyr y gwreiddiol yn gywir mewn sawl man.

...na allai'r brodorion wrthsefyll byddinoedd bychain – the natives could not resist small armies (byddai **withstand** yn gyfieithiad mwy priodol).

naratifau cyffredin – nid general narratives yw'r ystyr yn y fan hon, ond common narratives h.y. roedd pawb yn rhannu'r un naratifau.

...ei fod yn llawer mwy na phlentyn siawns o Gymro.
...that he was much more than a Welsh natural child.

Hepgorwyd geiriau yma a thraw. Un enghraifft oedd 'Yr ail amddiffyniad yw honni bod cymryd rhan mewn chwaraeon...' lle cafordd y gair 'honnî' ei hepgor o'r frawddeg gan y ddau ymgeisydd, ond ceir enghraifft arall sy'n fwy difrifol:

Gallai ymgyrchu o blaid dileu caethwasiaeth...
He could campaign in favour of slavery...
- sy'n newid ystyr y frawddeg yn llwyr.

Yn ogystal â gwallau ystyr, roedd enghreifftiau o gyfieithu trwsgl, lle gwelwyd diffyg ymwybyddiaeth o deithi'r Saesneg, neu duedd i ddilyn y Gymraeg yn rhy lythrennol. Dyma lle mae 'gwrando' ar y cyfieithiad yn bwysig, er mwyn sicrhau ei fod yn swnio'n naturiol ac yn gystrawennol. Pe bai'r ymgeiswyr wedi gwrando ar eu cyfieithiadau, go brin y byddai'r canlynol wedi ymddangos:

Mewn byd lle mae miliynau yn marw o newyn

In a world where millions die from famine (yn hytrach na ***die of hunger / starvation***).

Defnyddiwyd y ddwy ddadl

The two arguments were used (yn hytrach na ***Both arguments were used***).

Tebyg y byddem wedi parhau...

We would have likely continued...

Beth yw bod yn ddynol?

What is to be human?

Siomedig oedd gweld gwallau a llithriadau gan y ddau ymgeisydd yn y darn i'w gyfieithu gartref. Mae hwn yn gyfle i'r ymgeiswyr gyfieithu mewn sefyllfa waith arferol, ddydd i ddydd, heb bwysau amser a chyfyngiadau o ran adnoddau fel y profir wrth sefyll y papur arholiad. Nododd un ymgeisydd mewn troednodyn fod idiom yn anghyfarwydd iddo ac y byddai wedi 'holi/trafod ag eraill mewn sefyllfa arferol'. Ond dyna'n union yw'r darn hwn, a chyhyd â'u bod yn cadw at y canllawiau i ymgeiswyr, sy'n nodi na chaniateir i'r gwaith gael ei wirio na'i brawf ddarllen gan neb arall, mae'n hollbwysig eu bod yn sylweddoli y gallant fanteisio ar y cymorth sydd ar gael iddynt.

Mewn sefyllfa arholiad, gellir maddau mân wallau a llithriadau, ond os yw'r ymgeisydd am lwyddo, disgwylir i'r darn gwaith cartref fodloni meini prawf aelodaeth gyflawn yn llawn. Fel y nodir ar wefan y Gymdeithas, mae hyn yn cynnwys '*Ar ôl [i gyfieithydd] gwblhau ac adolygu ei gyfieithiadau, ni ddylai fod angen eu diwygio na'u cywiro*'. Yn anffodus, fel y gwelir o'r adroddiad hwn, nid felly y bu y tro hwn.

Y neges i'r ymgeiswyr (a darpar ymgeiswyr y dyfodol) felly yw talu sylw i fanylion a gwirio eu gwaith yn ofalus, dysgu gwrando ar eu cyfieithiadau i sicrhau eu bod yn swnio fel darnau gwreiddiol yn hytrach na chyfieithiadau trwsgl, a manteisio ar y cyfle mae'r darn gwaith cartref yn ei gynnig i gyflwyno cyfieithiad caboledig. O wneud hynny, ymarfer ac ennill profiad, does dim byd i atal y ddau ymgeisydd rhag llwyddo yn y dyfodol

Y Dirprwy Arholwr i'r Saesneg